



ADSS Cymru

Yn arwain Gwasanaethau
Cymdeithasol yng Nghymru
Leading Social Services in Wales

Treialu PredicAire mewn Gofal Preswyl (Rhanbarth Gwent)

Dysgu ar y cyd ar gyfer trawsnewid digidol

**CYMDEITHAS CYFARWYDDWYR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL
(ADSS) CYMRU**

Mawrth 2025

Awduron: Nicki Harrison, Rebecca Woolley, Glenda George, Phil Evans

Cynnwys

Cydnabyddiaethau	Error! Bookmark not defined.
Cyflwyniad	Error! Bookmark not defined.
1. Cefndir a chyd-destun	Error! Bookmark not defined.
2. Methodoleg llywodraethu ac adrodd ar y prosiect	Error! Bookmark not defined.
3. Mewnwelediadau gan gartrefi gofal yn y cynllun peilot	Error! Bookmark not defined.
4. Dysgu o gartrefi gofal preswyl eraill	Error! Bookmark not defined.
5. Map Trywydd ar gyfer Newid	Error! Bookmark not defined.
6. Casgliadau	Error! Bookmark not defined.
7. Argymhellion	Error! Bookmark not defined.
Atodiad 1: Cylch Gorchwyl Grŵp Llywio'r Prosiect ac eitemau agenda	Error! Bookmark not defined.
Atodiad 2: Cwestiynau Cyffredin	36
Atodiad 3: Cynllun Hyfforddi'r Prosiect Peilot	Error! Bookmark not defined.
Atodiad 4: Bodloni gofynion data a diogelwch awdurdodau lleol	40

Cydnabyddiaethau

Yn ystod y prosiect hwn, cyfarfu Tîm Prosiect ADSS Cymru ag ystod eang o randdeiliaid. Bu'n ffrainc cyfarfod â chymaint o ymarferwyr ymroddedig, rheolwyr, gweinyddwyr, arweinwyr data a digidol, a gyfrannodd eu barn a'u hamser i gefnogi'r darn hwn o waith. Rydym yn awyddus i gydnabod cyfraniad pawb a gymerodd ran yn y sesiynau ymgysylltu ac aelodau'r Grŵp Llywio. Diolch am gymryd rhan ar adeg pan fo galw digynsail o hyd ar amser, egni a gwydnwch personol.

Cyflwyniad

Mae cyflwyno Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn cyflwyno'r potensial i newid byd gwaith yn y gymdeithas fodern yn radical. Drwy drosoli AI, bydd llywodraethau a sefydliadau cyhoeddus yn gallu gwella effeithlonrwydd, gwella'r modd y darperir gwasanaethau, a chefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus, gan arwain yn y pen draw at ganlyniadau gwell i bobl.

Arweiniodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS Cymru), gyda chefnogaeth Practice Solutions, brosiect i dreialu system ddigidol gydag ymarferoldeb AI sydd â'r potensial i wella'r modd y darperir gwasanaethau mewn cartrefi gofal preswyl sy'n eiddo i awdurdodau lleol yng Ngwent. Ariannwyd hwn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a chaffaelwyd PredicAire i gyflwyno'r system.

Digwyddodd y gwaith hwn rhwng mis Hydref 2024 a mis Mawrth 2025. Dewiswyd PredicAire, system sy'n seiliedig ar ap, gan ei fod wedi'i gynllunio'n benodol i gefnogi cartrefi gofal ac mae'n unigryw o ran gallu defnyddio swyddogaethau deallusrwydd artiffisial i wella effeithlonrwydd a gwella canlyniadau i breswylwyr a staff. Mae ganddo hefyd swyddogaeth aml-iaith, gyda'r potensial i weithredu'n ddwyieithog. Roedd eisoes yn cael ei ddefnyddio mewn cartrefi gofal yn Lloegr ac roedd y cwmni'n barod i weithio'n agos drwy gydol y peilot, i barhau i ddatblygu'r ap yn unol â gofynion defnyddwyr.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r hyn a ddysgwyd a'r canfyddiadau o gyflwyno system ddigidol newydd i gartrefi gofal a redir gan awdurdodau lleol. Mae'n casglu profiadau beunyddiol staff sy'n defnyddio systemau papur ar hyn o bryd, yn cyfleu'r heriau o fabwysiadu system newydd o fewn lleoliad awdurdod lleol, ac yn cyflwyno'r cyfleoedd i wella. Mae'r adroddiad yn cyflwyno argymhellion, yn ogystal ag awgrymiadau gweithredol, i hwyluso a chyflymu gweithrediad digidol yn y dyfodol ar draws cartrefi gofal yng Nghymru.

Dyma grynodedb o bob pennod:

Mae **Pennod 1** yn nodi cefndir y prosiect ac yn gosod Prosiect Peilot PredicAire Gwent yng nghydestun trawsnewid digidol ehangach gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan roi trosolwg o PredicAire a manyleb y prosiect.

Mae **Pennod 2** yn cyflwyno'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ac yn rhannu manylion trefniadau llywodraethu'r prosiect a rôl y Grŵp Llywio.

Mae **Pennod 3** yn nodi'r mewnwelediadau a gasglwyd o sgysiau â rhanddeiliaid allweddol o'r awdurdodau lleol a gymerodd ran yn y peilot a chydag aelodau o'r Grŵp Llywio. Mae'n canolbwyntio ar barodrwydd cydweithwyr ar gyfer newid digidol, eu gobeithion a'u pryderon ynghylch trawsnewid, ac unrhyw fyfyrddodau sydd wedi llunio'r argymhellion.

Mae **Pennod 4** yn rhannu'r hyn a ddysgwyd o ardal arall o Gymru lle mae cydweithwyr ymhellach ymlaen ar daith ddigidol eu cartrefi gofal, gan ddefnyddio teclyn nad oes ganddo ymarferoldeb AI.

Mae **Pennod 5** yn cyflwyno map trywydd ar gyfer newid, a ddatblygwyd mewn ymateb i'r hyn a ddysgwyd o'r cynllun peilot hwn, gan roi canllaw cam-wrth-gam byr ar weithredu teclyn digidol mewn cartref gofal.

Mae **Pennodau 6 a 7** yn dod i gasgliadau o ganfyddiadau'r prosiect ac yn cyflwyno argymhellion wedi'u rhannu'n dair rhan: i'w hystyried ledled Cymru, i'r arweinwyr awdurdodau lleol a gymerodd ran yn y peilot, ac i eraill a allai ddymuno cyflwyno teclyn digidol i gartrefi gofal yn eu hardal.

1. Cefndir a chyd-destun

Cefndir

Mae awdurdodau lleol yn wynebu heriau niferus, o gyllid a phwysau ariannol i heriau gweithlu, gan gynnwys recriwtio a chadw staff, effeithiau parhaus pandemig Covid-19 a gwahaniaethau rhanbarthol.

Mae gan ranbarth Gwent nifer o gartrefi gofal sy'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol ac fel ardaloedd eraill yng Nghymru, mae'n wynebu'r her o reoli gofynion gweinyddol darparu gwasanaethau'n ddiogel mewn cartrefi tra'n gwneud y mwyaf o'r amser a dreulir gyda'r unigolion yn eu gofal. Ar hyn o bryd, treulir cryn dipyn o amser ar ddiweddarau cofnodion papur, gan ddefnyddio systemau hen ffasiwn ac anintegredig, sy'n arwain at waith yn cael ei ddyblygu ac yn cynyddu'r posibilrwydd o gamgymeriadau.

Mae digideiddio systemau papur yn un ffordd o fynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n wynebu gofal cymdeithasol.

Y Strategaeth Digidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Erbyn 2040, bydd 28% o boblogaeth Cymru dros 65 oed, o gymharu â 24% yn y DU gyfan. Mae pobl yn byw gydag anhwylderau a chyflyrau am gyfnod hwy a byddant yn creu galw cynyddol am wasanaethau gofal a chymorth. Mae hyn wedi ysgogi gwaith i archwilio ffyrdd cost effeithiol o wella safonau o fewn gofal preswyl heb fynd i gostau uwch.

Nod y Strategaeth Digidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (2023) yw gwella darpariaeth gwasanaethau, cefnogi darparwyr gofal, a grymuso'r rhai sy'n derbyn gofal. Un amcan allweddol yw symud o brosesau papur traddodiadol i gyflawni digidol, gan wella effeithlonrwydd a chywirdeb wrth gadw cofnodion a rheoli gofal. Mae nodau yn cynnwys:

- Datblygu llwyfannau digidol sy'n diwallu anghenion penodol yng Nghymru
- Sicrhau bod gwasanaethau'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ac yn hygyrch
- Buddsoddi mewn seilwaith modern i sicrhau bod ymarferwyr yn gallu cyrchu'r wybodaeth gywir ar yr adeg gywir

Mae'r strategaeth yn nodi AI fel technoleg sy'n dod i'r amlwg a allai roi cyfle i ymateb i'r heriau ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Er enghraifft, gellir ei ddefnyddio fel arf i wella darpariaeth gwasanaethau gofal trwy awtomeiddio tasgau gweinyddol a darparu monitro amser real i gefnogi ymyrraeth gynnar.

Mae AI eisoes yn cael ei ddefnyddio mewn sawl sector. Ym maes gofal iechyd, mae'n cefnogi diagnosis mwy cywir, gwneud penderfyniadau a rhagfynegi achosion posibl. Mewn busnes, mae'n cefnogi effeithlonrwydd ac archwilio, dadansoddi tueddiadau'r farchnad a gwneud y mwyaf o elw posibl.

Mae mabwysiadu AI mewn lleoliadau gofal cymdeithasol wedi bod yn fwy graddol. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn dechrau defnyddio AI fel mater o drefn gyda pheth tystiolaeth o addewid cynnar. Fodd bynnag, bydd yn hanfodol mynd i'r afael â heriau a sicrhau bod gan unrhyw system a fabwysiedir y swyddogaethau diogelwch, preifatrwydd data, amddiffyniad a defnydd moesegol angenrheidiol, i sicrhau bod y dechnoleg o fudd i bawb yn deg ac yn gyfartal.

Gyda thrafodaeth gyhoeddus gynyddol ynghylch AI, mae pwyslais cynyddol ar hyrwyddo defnydd AI cyfrifol, gan gynnwys lliniaru rhagfarn algorithmig posibl, cynnal goruchwyliaeth ddynol, a blaenoriaethu barn broffesiynol a gofal sy'n canolbwyntio ar y preswilydd ochr yn ochr â mewnwelediadau AI.

Mae dysgu eisoes i'w ddefnyddio o bob rhan o Gymru ac adnoddau o bob rhan o'r DU, sy'n darparu cyd-destun a sylfeini hanfodol i gydweithwyr sy'n dechrau ar drawsnewid digidol ym maes gofal cymdeithasol. Ochr yn ochr â'n canfyddiadau o Brosiect Peilot PredicAire Gwent, rydym yn argymhell bod pobl yn cyfeirio at yr adnoddau hyn, gan gynnwys:

- [‘Adolygiad o opsiynau ar gyfer cefnogi arloesedd digidol mewn gofal cymdeithasol’](#) (2023), a gomisiynwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n darparu cyfoeth o fewnwelediadau a hyperddolenni cyfeirio helaeth at y llenyddiaeth sy'n ymwneud â thrawsnewid digidol ym maes gofal cymdeithasol ledled y DU
- [Myfyrdodau gan Linc Cymru](#) ar newid o systemau papur i systemau digidol mewn tri chartref gofal ar draws Caerdydd a Chasnewydd (Ionawr 2025).
- The LOTI (London Office of Technology and Innovation) [Health and Social Care System Technology Map](#) (a chronfeydd data cysylltiedig): adroddiad ymchwil byr a chronfa ddata o atebion technoleg a data, a all ddarparu pwynt cyswllt ar gyfer arweinwyr gofal cymdeithasol a thrawsnewid digidol, drwy amlygu modelau ac atebion sydd eisoes yn cael eu defnyddio ar draws Lloegr.
- [Digitising Social Care](#): er bod hwn yn safle penodol i ofal cymdeithasol yn Lloegr, mae'n cynnwys llawer iawn o wybodaeth werthfawr am drawsnewid digidol mewn gofal cymdeithasol.
- [Cynllun cyflawni gweithlu gofal cymdeithasol 2024 i 2027 | Gofal Cymdeithasol Cymru](#): gydag integreiddio cynyddol offer AI, mae'n hanfodol bod y gweithlu gofal cymdeithasol yn meddu ar wybodaeth, hyder a sgiliau i groesawu trawsnewid digidol. Mae un o themâu Strategaeth 10 mlynedd y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol yn canolbwyntio ar ddatblygu “gweithlu sy'n barod ar gyfer y byd digidol”.

I'r rhai sy'n dymuno cyrchu ffynonellau llenyddiaeth sylfaenol helaeth, byddem yn argymhell yr adran cyfeiriadau yn yr [‘Adolygiad o opsiynau ar gyfer cefnogi arloesedd digidol mewn gofal cymdeithasol’](#) (2023), a gynhyrchwyd gan Basis ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru.

Trosolwg o'r system PredicAire

Dewiswyd system PredicAire ar gyfer y cynllun peilot hwn oherwydd ei bod yn bodloni gofynion y fanyleb ar gyfer cartrefi gofal a redir gan awdurdodau lleol ac roedd eisoes yn cael ei defnyddio'n llwyddiannus i gynorthwyo darparwyr cartrefi gofal yn Lloegr. Caffaelodd Practice Solutions y system PredicAire ar ran ADSS Cymru, yn unol â gofynion y cyllid grant.


Mae PredicAire yn system feddalwedd rheoli gofal yn y cwmwl gydag ymarferoldeb AI wedi'i gynllunio i fod yn hawdd ei ddefnyddio i staff â lefelau amrywiol o lythrennedd technolegol. Fe'i cynlluniwyd gan ddarparwyr gofal cymdeithasol profiadol i bobl hŷn, i wella effeithlonrwydd ac ansawdd gofal a rheolaeth gofal mewn lleoliadau amrywiol, gan gynnwys gofal preswyl, cartrefi nyrsio, a gofal yn y cartref. Mae ganddo swyddogaethau iaith lluosog a'r potensial i weithredu'n ddwyieithog, er nad yw'r swyddogaeth hon wedi'i threialu fel rhan o'r prosiect peilot hwn. Yng Ngwobrau Gofal Cenedlaethol 2024, enillodd PredicAire Arloesedd Technolegol y Flwyddyn.

Dangosir nodweddion a buddion allweddol y system yn Ffigur 1, ac maent yn cynnwys:

- **Technoleg AI:** Mae monitro arwyddion hanfodol a chanfod anomaleddau yn gynnar trwy dechnoleg AI yn galluogi staff i adnabod tueddiadau a newidiadau yn iechyd preswylwyr yn gyflym, gan arwain at ganlyniadau gofal gwell¹
- **Data Amser Real a Mewnwelediadau:** Mae PredicAire yn darparu data strwythuredig, amser real a mewnwelediadau ar iechyd a lles preswylwyr. Mae hyn yn helpu i ragweld ac atal canlyniadau diangen, gwneud penderfyniadau mwy gwybodus a darparu gofal rhagweithiol
- **Integreiddio:** Mae'n cysylltu gwahanol rannau o'r cartref gofal, gan sicrhau bod yr holl gofnodion allweddol mewn un lle ac yn hygyrch drwy gyfrifiaduron bwrdd gwaith, llechen a dyfeisiau symudol. Mae hyn yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r holl gofnodion allweddol mewn un lle, felly nid oes unrhyw golled neu ddyblygu mewnbynnau data
- **Rheoli Staff:** Gwella data rheoli staff gyda datrysiad cynhwysfawr yn y cwmwl. Symleiddio prosesau gyda thaflenni amser digidol, rhestrau dyletswyddau staff, offer dibyniaeth, matrices hyfforddi deinamig, rheoli absenoldeb, gwerthusiadau a mwy
- **Nodweddion eang:** Mae PredicAire yn cynnwys modiwlau ar gyfer cynllunio gofal, sicrhau ansawdd, cyfathrebu teuluol, rheoli cegin, a chynllunio gweithgareddau. Mae hyn yn cefnogi dull gofal cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- **Cymorth i gwsmeriaid ar ôl gwerthu:** Mae nodweddion sy'n annog ymatebolrwydd ac effeithiolrwydd yn cynnwys:
 - Ymrwymiad i brosesau cynefino sy'n helpu i sicrhau y gall defnyddwyr newydd ddechrau defnyddio'r feddalwedd yn gyflym ac yn effeithiol.
 - Cymorth parhaus i fynd i'r afael â materion neu gwestiynau sy'n codi.
 - Datrys problemau hygyrchedd trwy wahanol sianeli, gan gynnwys ffôn ac e-bost; sesiynau hyfforddi defnyddwyr i helpu staff i ddod yn hyddysg yn y feddalwedd.

¹ Mae swyddogaeth AI yn PredicAire wedi'i chyfyngu yn unol ag arfer da, fel na fydd yr offeryn AI byth yn creu ymyrraeth gyda phreswlydd nad yw'n cael ei wirio gan fod dynol yn gyntaf.

Ffigur 1: Crynodeb o ymarferoldeb PredicAire



Manyleb y prosiect

Manyleb gychwynnol y prosiect oedd i'r peilot redeg o fis Hydref 2024 i fis Mawrth 2025, gan ddarparu cyfleoedd i:

- Gweithredu a phrofi PredicAire i symud y gwaith o reoli darpariaeth o brosesau papur i gyflwyno digidol
- Casglu'r hyn a ddysgwyd a gwerthuso'r effaith ar fanteision cost, diwylliant sefydliadol, recriwtio a chadw'r gweithlu

Bwriadwyd i'r prosiect fod wedi cyrraedd pwynt 'Mynd yn Fyw' ar gyfer trosglwyddo data i ddatrysiaid digidol ym mis tri. Byddai hyn wedi rhoi tri mis arall i werthuso'r broses weithredu a manteision a heriau defnyddio system ddigidol. Trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, daeth yn amlwg bod y fanyleb gychwynnol hon yn uchelgeisiol iawn, gan fod yr amserlen (dim ond chwe mis) yn eithriadol o fyr ar gyfer rhaglen trawsnewid digidol. Tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw at y ffaith eu bod wedi bod yn ceisio rhoi rhywbeth tebyg ar waith ers dwy flynedd a'u bod yn dal mewn cyfnod cynnar iawn.

Cytunodd y Grŵp Llywio i addasu manyleb y prosiect er mwyn rhoi'r cyfle i'r holl rhanddeiliaid ymgysylltu'n llawn â'r peilot a chyfrannu at ddatblygu dull a fyddai'n arwain at weithredu datrysiaid digidol gydag ymarferoldeb AI yn llwyddiannus. Symudodd ffocws yr adroddiad hwn yn unol â hynny at rannu gwersi a ddysgwyd, fel y gallai awdurdodau lleol eraill yng Nghymru elwa o fewnwelediadau'r peilot.

Daeth canlyniadau diwygiedig y prosiect yn:

- Darparu cymorth gwell o wasanaethau gofal preswyl i bobl hŷn mewn cartrefi dethol sy'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol yn rhanbarth Gwent
- Dysgu gwersi o'r gwaith paratoi a gweithredu technoleg ddigidol, mewn lleoliadau gofal preswyl
- Hwyluso symudiad o brosesau papur yn bennaf i gyflawni digidol, yn unol â'r Strategaeth Digidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol²

I ddechrau, roedd wyth cartref gofal o dri awdurdod lleol gwahanol yn Rhanbarth Gwent yn awyddus iawn i gymryd rhan yn y peilot. Wrth i'r prosiect fynd rhagddo, daeth y cymhlethdodau a'r amserlenni sy'n gysylltiedig â chyflwyno PredicAire yn gliriach, yn enwedig o ran ei ryngwyneb â systemau TG awdurdodau lleol. Roedd yn bwysig bod yr holl staff yn y cartrefi gofal yn cael y cyfle i ymgysylltu'n llawn â'r newidiadau arfaethedig ac o ganlyniad, gostyngwyd nifer y cartrefi gofal a oedd yn cymryd rhan i bedwar cartref ar draws y tri awdurdod lleol. Yn ystod y cyfnod hwn, dechreuodd y Tîm Prosiect drafodaethau ag awdurdod lleol arall a oedd eisoes wedi cyflwyno teclyn digidol heb ymarferoldeb AI. Roedd eu gwaith wedi cychwyn dwy flynedd ynghynt ac roeddent ar ddechrau'r cyfnod gweithredu. Er mwyn cynorthwyo eraill, roeddent yn fodlon rhannu eu dysgu, ac mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys ym Mhennod 4.

O fewn amserlenni'r prosiect, mae gan ddau awdurdod lleol gartref gofal yr un sydd wedi symud ymlaen i'r cam gweithredu o ddefnyddio PredicAire. Fodd bynnag, yng nghamau olaf y prosiect, penderfynodd y trydydd awdurdod lleol beidio â bwrw ymlaen â'r peilot, oherwydd nifer o faterion gweithdrefnol ac anawsterau wrth gyrraedd y cam Mynd yn Fyw o fewn amserlenni'r prosiect. Mae'r gwersi gwerthfawr a ddysgwyd gan yr awdurdod lleol hwn wrth iddynt symud ymlaen drwy'r cyfnodau cynllunio a pharatoi wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn ac maent yn llywio datblygiad y Map Trywydd ym Mhennod 5.

² <https://www.gov.wales/digital-and-data-strategy-health-and-social-care-wales-html>

2. Methodoleg llywodraethu ac adrodd ar y prosiect

Goruchwyliwyd y gwaith gan Grŵp Llywio'r Prosiect a gyfarfu 4 gwaith yn ystod y prosiect. Roedd yr aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o ADSS Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, PredicAire, Grŵp Cynghori Digidol (Penaethiaid Digidol a TGCh o'r 22 Cyngor yng Nghymru), yr Ystafell Beiriannau Gofal Cymdeithasol, rheolwyr gwasanaethau preswyl o gartrefi gofal yng Ngwent a Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae cylch gorchwyl y grŵp wedi'i gynnwys yn [Atodiad 1](#), ynghyd â'r eitemau agenda a drafodwyd yn y cyfarfodydd hyn.

Pwrpas y Grŵp Llywio oedd darparu trosolwg strategol ac arweiniad ar gyfer y prosiect a chymorth i'r Tîm Prosiect trwy gynnig cyfeiriad, mynd i'r afael â heriau, a sicrhau aliniad â nodau ac amserlenni'r prosiect.

Darparodd aelodau'r Grŵp Llywio ddiweddariadau i Grwpiau Arwain a Gweithlu ADSS Cymru, yn ogystal â'r Ystafell Beiriannau Gofal Cymdeithasol a'r Grŵp Cynghori Digidol, drwy bapurau briffio ac adroddiadau ar y prif bwyntiau.

Cynlluniwyd y prosiect i ymgysylltu mor eang â phosibl â chynrychiolwyr o staff y cartrefi gofal, gan gynnwys uwch reolwyr, arweinwyr tîm, ymarferwyr a rheolwyr y gweithlu. Gwahoddwyd swyddogion llywodraethu data, diogelwch a TG hefyd i ymgysylltu drwy gydol y prosiect i roi cymorth a chynghor ar faterion diogelu data a diogelwch a fyddai'n effeithio ar y peilot a mabwysiadu datrysiad digidol newydd i wella cyflenwi gwasanaethau.

Datblygwyd cynllun prosiect cynhwysfawr ynghyd â chofrestr risg i nodi a lliniaru heriau a nodwyd, log rhanddeiliaid a negeseuon cyfathrebu allweddol.

Dull

Drwy gydol y prosiect, roedd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn allweddol i ddeall yr heriau a'r gwersi a ddysgwyd. Cynhaliwyd cyfweiliadau lled-strwythuredig a grwpiau ffocws gyda gweithwyr cartrefi gofal ar draws y cartrefi sy'n gweithredu PredicAire. Roedd y cyfweiliadau hyn yn casglu eu ffyrdd presennol o weithio ar bapur, eu gobeithion a'u pryderon ynghylch cyflwyno technoleg ddigidol, a'u parodrwydd ar gyfer newid.

Cynhaliwyd cyfweiliadau lled-strwythuredig hefyd gyda gweithwyr gofal a rheolwyr sydd wedi rhoi teclyn digidol amgen ar waith yn ddiweddar mewn ardal arall o Gymru. Roedd y cyfweiliadau hyn yn casglu eu myfyrdodau ar gyflwyno technoleg ddigidol, awgrymiadau a chynghorion ar sut y gallent wneud pethau'n wahanol pe gallent ei wneud eto, eu barn ar unrhyw fuddion y maent wedi'u gweld hyd yma, ac i'r gwrthwyneb unrhyw heriau y maent wedi'u hwynebu.

Cynhaliwyd sesiynau dysgu myfyriol hefyd gydag aelodau o Grŵp Llywio Prosiect Peilot PredicAire Gwent a chydag aelodau o'r Tîm Prosiect i gasglu eu dysgu a'u harbenigedd i lywio'r adroddiad hwn.

Mae cyfanswm o 31 o bobl wedi cymryd rhan yn uniongyrchol mewn cyfweiliadau lled-strwythuredig, cyfarfodydd neu grwpiau ffocws.

3. Mewnwelediadau gan gartrefi gofal yn y cynllun peilot

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn rhannu mewnwelediadau o'r data ansoddol, a gasglwyd rhwng mis Rhagfyr 2024 a mis Mawrth 2025 ochr yn ochr â gweithredu PredicAire. Mae'n tynnu ar

gyfweiliadau lled-strwythuredig gyda 21 o bobl yn amrywio o randdeiliaid ar grŵp llywio'r prosiect i reolwyr cartrefi gofal ac arweinwyr tîm, a ddangosir yn Nhabl 1.

Tabl 1: Rhanddeiliaid yn cymryd rhan mewn cyfweiliadau lled-strwythuredig ynghylch y gweithredu

Grŵp rhanddeiliaid	
Aelodau'r Grŵp Llywio (gan gynnwys cydweithwyr sy'n gweithio mewn timau llywodraethu gwybodaeth a TG a Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdodau lleol, Gofal Cymdeithasol Cymru, a PredicAire)	8
Rheolwyr Gwasanaeth a/neu Unigolion Cyfrifol, Rheolwyr Cartrefi Gofal, Dirprwy Reolwyr ac Arweinwyr Tîm (noder bod 2 o'r unigolion hyn hefyd yn eistedd ar y grŵp llywio ond nad ydynt yn cael eu cyfrif ddwywaith)	9
Aelodau'r Tîm Prosiect	4

Systemau papur a maint y newid

Mae'r cartrefi sy'n rhan o'r peilot hwn bron yn gyfan gwbl ar bapur, gyda llawer o systemau a phrosesau gwahanol ar gyfer cadw gwybodaeth am y cartref a'i breswylwyr. Dywedodd un person wrthym:

'Mae popeth ar bapur – mae fel bod mewn oes wahanol, mewn cartref gofal.'

Pan ofynnwyd iddynt egluro'r systemau presennol, roeddent yn rhy gymhleth i bobl eu rhannu'n llawn, ond ceisiodd rhai cyfweleion eu hamlinellu i ni:

'Felly ar hyn o bryd, wyddoch chi, papur yw 99% o bopeth sy'n ymwneud â phreswilydd. Mae gennym ni [fel y rheolwyr] gynlluniau gofal [preswylwyr], eu gwaith papur trwy e-bost. Yna byddwn yn ei argraffu oherwydd bod copi o hwnnw wedyn yn mynd i mewn i ffeil y person. Rydyn ni'n gwneud asesiadau risg ar y cyfrifiadur fel eu bod nhw'n cael eu cadw ar y cyfrifiadur er mwyn i ni allu diweddarau pan fo angen. Ond wedyn eto mae hwnnw wedi ei argraffu ac mae hwnnw'n mynd i mewn i gopi papur oherwydd yn amlwg mae angen i'r staff eu gweld. Nid oes gan y staff o ddydd i ddydd unrhyw gyfrifiaduron, felly mae popeth sydd ei angen arnynt i ofalu am unigolyn ar bapur. Felly, mae'r hyn y mae person wedi'i wneud trwy gydol y dydd, yn cael ei gofnodi mewn taflen nodiadau dyddiol ac yn mynd yn ffeil y person. Gofal personol fel ymolchi, golchi dillad, newid gwelyau rhywun, unwaith eto, mae hynny i gyd yn cael ei wneud ar bapur. Mae siartiau deiet, siartiau hylif, ar bapur. Rydyn ni wedi dechrau teipio cynlluniau gwasanaeth felly rydyn ni'n cadw copi ar y cyfrifiadur oherwydd mae hynny'n llawer haws pan fydd anghenion rhywun yn newid. Ond eto, at y dibenion monitro maent yn cael eu hargraffu a'u symud i ffeil y person... bydd staff wedyn yn monitro hynny'n fisol neu pan fydd newidiadau'n digwydd a... byddant yn dod yn ôl i mewn ac yna gallwn wneud mân newidiadau ar y cyfrifiadur... Mapiau corff, ffurflenni damweiniau - mae'n rhaid i ni eu cadw beth bynnag ar gyfer ein papurau iechyd a diogelwch - rydym yn gwneud adroddiad yn dilyn codwm, a byddwn yn ei anfon wedyn, trwy e-bost at ein rheolwr ...adroddiadau deietegydd, meddygon, rhyddhau o'r Ysbyty, yn amlwg, mae'r rhain i gyd ar bapur.'

Mae gwybodaeth ddibreswyl mewn cartrefi hefyd yn helaeth ac ar hyn o bryd ar bapur. Dywedodd un rheolwr wrthym:

'Bydd gan bob swydd cynnal a chadw unigol a wnawn ei ffeil ei hun. Mae ffeil yn cael ei chreu 'achos bob pythefnos mae'r matresi a'r clustogau hyn yn cael eu pwmpio i fyny. Yna mae gennym y ffeil ar gyfer yr holl wybodaeth tân. Yna mae ffeil wedyn ar gyfer gwirio eich

goleuadau argyfwng, gwirio tymheredd eich dŵr. Ac yna mae ffeil ar gyfer rhywbeth arall. ... Felly mae llawer o waith papur yma... Mae cymaint o wahanol leoedd i gael cymaint o wybodaeth, ac os yw o dan un ymbarél byddai'n fwy syml.'

Clywsom gan y cartrefi sy'n rhan o'r prosiect hwn y gall eu systemau papur achosi problemau wrth gwblhau tasgau ymarferol sylfaenol megis dod o hyd i ddarnau o bapur:

'Ble mae'r ffeil honno wedi mynd nawr? Mae wedi llithro i lawr y cefn [y cabinet ffeilio] rhwng y ffolderi eraill! Neu nid yw rhywun wedi ei roi yn ôl yn y lle iawn. Neu rydw i'n edrych yn P ac mae wedi'i orffen yn R neu S neu T oherwydd nad yw rhywun yn gwybod yr wyddor! Rydyn ni'n dod i arfer â lle mae pethau ... ond pan fydd rhywun wedi gwneud llanast gyda'r ffeiliau a'u symud o gwmpas, nid yw yn y lle rydych chi'n meddwl y bydd.'

Gall hefyd gymryd llawer o amser ac yn gorfforol feichus i adalw dogfennau wedi'u harchifo:

'Gyda ffeiliau papur mae'n rhaid i chi eu storio ac mae'n rhaid eu harchifo ac mae gennym ni ddwy garej enfawr yn llawn gwaith papur... Rydym wedi cael hawliadau cyfreithwyr, hawliadau CHC ac ati, ac rydym wedi gorfod mynd i fyni'r garejys a chwilio trwy'r holl waith papur. Tra [gyda system ddigidol] fe fydddech chi'n llythrennol yn mynd i'r system ac yn chwilio am enw rhywun, oni fydddech chi? Ond nawr rydyn ni yn y garejys gyda bocsys yn chwilio am bethau.'

Anaml y mae pobl sy'n gweithio yn y cartrefi gofal hyn (ac eithrio'r timau rheoli) yn defnyddio cyfrifiaduron. Mae graddfa'r trawsnewid (a'r rheolaeth newid sydd ei angen i'w gyflawni) yn enfawr:

'Dydyn nhw ddim yn bobl sy'n gweithio'n ddigidol bob dydd – nid yw fel Connecting Care lle mae pobl yn cwyno am system newydd, ond o leiaf mae ganddyn nhw system ac maen nhw ar y cyfrifiadur.'

Cymhellion dros newid

Yn ein cyfweiliadau gwaelodlin ag aelodau'r tîm cartrefi gofal, dywedodd pobl mai systemau digidol yw'r norm nawr felly byddent yn disgwyl symud oddi wrth bapur:

'Rwy'n meddwl bod llawer o bobl yn gweithio tuag at [digidol] nawr, hyd yn oed cwmnïau yswiriant ac ati, mae popeth ar-lein nawr, yn anaml iawn cewch chi unrhyw beth drwy'r post nawr.'

Dywedasant hefyd fod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol eraill eisoes yn ddigidol, a gallant weld y manteision:

'Rydyn ni wedi cael y Nyrsys Ardal wedi dod i mewn yn ddiweddar ac maen nhw i gyd wedi cael iPads i fewnbynnu eu gwybodaeth... A'r ysbytai nawr, lle roeddech chi'n arfer ysgrifennu eich dewisiadau ar gyfer eich cinio ar ddarn o bapur, mae'r cyfan yn ddigidol nawr. Felly, dyna'r ffordd ymlaen ac mae i symud gyda'r oes.'

'Rwy'n gwybod bod fy ffrind yn ei ddefnyddio yn y gymuned, welwch chi? Maen nhw'n ei ddefnyddio yn y gymuned, ac mae ganddi ffôn, felly pan maen nhw'n gwneud apwyntiad iddi weld cleient, dim ond gwrthio botwm sydd angen iddi hi ei wneud a bydd ganddi'r holl wybodaeth hon am unigolyn cyn iddi fynd i'w gweld.'

Roedd y bobl y siaradon ni â nhw cyn gweithredu wrth eu bodd â'r syniad o gael yr holl wybodaeth am eu cartref a'i breswylwyr mewn un lle:

'Os oes gennych yr holl wybodaeth honno o dan un ymbarél, faint o ffeiliau sydd gennym mewn mannau ar wahân pan fyddwch am gael gafael ar y wybodaeth honno, mae'n cymryd llawer mwy o amser i chwilio amdani nag y byddai'n ei gymryd o edrych ar sgrin.'

Gallent weld budd hyn ar gyfer tasgau fel derbyn staff newydd:

‘Mae gennym ni’r ciplun hwnnw, felly os bydd pobl newydd yn ymuno, rydyn ni’n dweud ‘dyma’r holl breswylwyr y byddwch chi’n cwrdd â nhw heddiw – dyma’r ciplun cyflym ohonyn nhw... Felly, rydych chi’n gwybod pwy rydych chi’n mynd i mewn i’w weld.’

Mae rheolwyr yn awyddus i aelodau eu tîm allu cyrchu gwybodaeth ar unwaith, heb fynd i chwilio am ffeil mewn ystafell arall. Gallant weld y bydd hyn yn gwella gofal, ac yn rhoi mwy o amser gyda phreswylwyr:

‘Mae ganddyn nhw fynediad os oes angen iddyn nhw gwestiynu rhywbeth ar unwaith. ‘Achos weithiau nid yw bob amser yn briodol gadael y person hwnnw i ddod i wirio.’

‘Weithiau mae’r staff yn eistedd i lawr yn y prynhawn yn ysgrifennu eu nodiadau yn eu llyfrau – mae hynny’n amlwg yn cymryd llawer o amser ac eto nid ydynt yn treulio amser gyda’r preswylwyr.’

Roedd yn amlwg o’n cyfweiliadau bod rheolwyr gwasanaeth a’u timau arwain yn awyddus i symud i systemau digidol.

Y cymhellant pennaf yw ansawdd. Dywedodd un cyfwelai wrthym:

‘Mae’r cyfan yn ymwneud â’r ansawdd – dyna pam y gwnaeth yr arddangosiad PredicAire argraff arnaf – roedd peth o’r data y gallent ei ddefnyddio i gael effaith wirioneddol ar fywydau pobl, ac adborth priodol i weithwyr ieuchyd proffesiynol, yn anhygoel. I mi, byddai’r ansawdd hefyd yn dod trwy ryddhau amser staff i dreulio amser gyda phreswylwyr. Ni allwch roi pris ar hwnnw ac ni allwch hyd yn oed ei fesur mewn gwirionedd. Ond dydyn nhw ddim yn teimlo fel eu bod yn cael eu rhuthro ac nid ydyn nhw’n meddwl “Wnes i ddim llenwi’r ffurflen damweiniau am 3am oherwydd roeddwn i’n rhy brysur”.’

Yn un o’n sesiynau cyfweld, rhannodd rheolwyr y rhestr ganlynol o ffyrdd yr oeddent yn disgwyl i’r trawsnewidiad digidol gael effaith gadarnhaol yn eu cartref gofal:

- **Cyfathrebu â theuluoedd**
‘Rydym yn cael 10 i 15 galwad y dydd, yn gofyn ‘sut mae dad?’ neu ‘sut mae mam?’
- **Cyfathrebu â gweithwyr proffesiynol eraill (gwybodaeth ar gael ‘wrth gyffwrdd y botwm’)**
‘Rydym yn cael llawer o alwadau gan y Bwrdd Iechyd yn dweud ‘Ydych chi wedi anfon y wybodaeth am y person hwn atom?’ ac mae’n rhaid i ni bob amser ddweud ein bod wedi ei hanfon ar bapur. Gyda’r system hon, bydd gennym drywydd archwilio o’r hyn rydym wedi’i anfon, a bydd yn hawdd ei adfer i gyd ac yn hawdd ei ail-anfon os oes angen. Gallwn ddweud ‘Byddaf yn anfon dolen atoch nawr a bydd ar gael i chi ar unwaith’ – byddai hynny’n anhygoel ar gyfer parhad gofal. Ar hyn o bryd, mae’n dibynnu ar y sgwrs yn y foment rhwng y cartref a’r parafeddygon, neu’r alwad 999.’
- **Adrodd, contractau a chomisiynu (adroddiad un-stop symlach ar gyfer adolygiad desg o bethau fel cwympiadau, digwyddiadau diogelu, neu brosesau monitro/adrodd mewnlol rheolaidd)**
‘Fe wnaethon ni adolygiad bwrdd gwaith yn ddiweddar - roedd llawer o’r pethau y gwnaethom sylwi arnynt yn bethau y mae PredicAire i’w gweld yn gallu eu gwneud.’
- **Paratoi a chymryd rhan mewn arolygiadau AGC**
‘Rydym ni wedi cael ein beirniadu am beidio â chofnodi digon, neu nad yw wedi’i ysgrifennu’n dda, neu ddim digon o fanylion. Diffyg amser sy’n gyfrifol am hyn, a

gwahaniaethau rhwng aelodau'r tîm. Os gallwn gael y pethau hynny'n iawn, bydd yn help mawr. Mae cymaint o bethau y mae angen i ni eu cynhyrchu i'w harchwilio, os gallwn wasgu'r botymau ar PredicAire a bod modd iddo ei ddarparu, byddai hynny'n gwneud gwahaniaeth enfawr'

- **Lleihad mewn gwallau dynol wrth adrodd â llaw**
- **Rhoi atgyfeiriadau at ei gilydd ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol**
'Nid ydym yn dda fel staff am gofnodi ymddygiadau, felly nid yw [ein preswylwyr] wedyn yn cael cymorth gan y tîm iechyd meddwl oherwydd nid ydym wedi cofnodi'r pethau y mae angen cymorth arnynt.'
- **Cofnodi amser real (cywirdeb, penodoldeb, amseroldeb)**
- **Rotâu (cyflawnder ac effeithlonrwydd)**
'Mae ein rotas bob amser yn anghywir – mae rhywun bob amser wedi anghofio cynnwys rhywbeth neu'n cael ei dalu'n anghywir. Gwyddom na fydd y system ond cystal â'r data sy'n mynd i mewn iddi, ond mae'n fwy tebygol o weithio'n iawn yn y system ddigidol.'
- **Goruchwyliaeth ganolog i reolwyr wrth 'gyffwrdd â botwm'**
'Er mwyn i'r rheolwr weld popeth sy'n digwydd ac sydd angen ei wneud – mae gennym fwy o reolaeth dros ble mae'r bylchau a beth sydd angen i ni sylwi arno, drwy gymryd cipolwg.'
- **Tystiolaethu canlyniadau i breswylwyr yn seiliedig ar y data yn y system**
'Gwyddom eu bod yn darparu'r gofal, ond nid ydym yn cofnodi digon i ddangos y canlyniadau.'
- **Manylion/digonolrwydd y wybodaeth yn nodiadau preswilydd**
'Byddai'n tynnu sylw at y ffaith nad yw'r person hwnnw wedi cael faint o hylif y dylai ei gael yn ystod y dydd...dw i'n meddwl bod hwnnw'n arf da...oherwydd gallai rhywun golli hwnnw, neu efallai na fydd rhywun yn llenwi'r daflen ddeiet.'
- **Cynlluniau gofal – eu harwain i gael eu hysgrifennu yn y ffordd gywir**
'Rydym wedi cael ein beirniadu am eu bod yn rhy generig a heb fod yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Rydyn ni'n gwneud y gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ond mae angen inni ei ysgrifennu yn y ffordd honno. [Ond gyda PredicAire] rydych chi'n rhoi'r ffeithiau i mewn, ac mae [y swyddogaeth AI] yn ei droi'n gynllun.'
- **Archwilio a rheoli mewnol (gweld pwy sydd wedi gwneud beth, a phryd, oherwydd eu bod yn gadael ôl troed digidol)**
- **Cydraddoldeb â chartrefi gofal y sector preifat**
'[Maen nhw] wedi bod yn gwneud hyn ers blynnyddoedd – rydym ymhell ar ei hôl hi... mae cydweithwyr yn y sector preifat yn siarad amdano, a gwn y bydd yn wych.'
- **Adolygiad ôl-weithredol**
'Gallu mynd yn syth i mewn i un system a chanfod beth ddigwyddodd, bydd yn gwneud hyn gymaint yn well, yn fwy cywir, ac yn gyflymach.'
- **Lleihau dyblygu gwaith**
'Mae llawer o bobl yn gwneud yr un peth o amrywiol systemau neu brosesau gwahanol – felly bydd cael y cyfan mewn un lle a'i symleiddio yn wych.'

- **Cyfrinachedd**

'Pob cartref rydych chi'n mynd iddo, gallai'r staff fod ar ganol cwblhau gwaith papur ac mae ganddyn nhw gloch alw ac maen nhw'n gadael y ffeil a'r llyfr cyfathrebu ar agor. Gellir gadael ffeiliau preswylwyr ar agor ac ar gael i'w gweld - nid mewn amgylchedd dan glo... Bydd y system yn bendant yn mynd i'r afael â'r mater hwn.'

- **Cyfathrebu yn y cartref**

'Ar hyn o bryd dim ond llyfrau cyfathrebu â llaw sydd ar gael ac ni allwch warantu bod yr holl staff yn darllen y negeseuon. Mae'n anodd cael y cydbwysedd rhwng cloi'r llyfr i'w gadw fel ei fod yn gyfrinachol ond i'r holl staff allu ei weld.'

- **Hysbysiadau ac awgrymiadau**

'Does gen i ddim amser i fynd i edrych trwy bethau! Bydd angen cael hysbysiadau, a rhyw fath o 'rhestr i'w gwneud' yn cael ei chreu gan yr hysbysiadau, fel bod popeth yn cael ei drin yn briodol ac mewn modd amserol.'

Dywedodd pobl wrthym mai dyma'r gwelliannau allweddol yr oeddent yn gobeithio eu cyflawni drwy roi PredicAire ar waith:

- Arbed amser (e.e. creu cynlluniau gofal gan ddefnyddio AI neu gynhyrchu adroddiadau safonol)
- Lleihau gwallau dynol (e.e. hysbysiadau i lenwi bylchau mewn adrodd â llaw)
- Gwell cywirdeb (e.e. adrodd amser real, awgrymiadau i gofnodi, a thrywydd archwilio)
- Adroddiadau manylach (e.e. cynlluniau gofal wedi'u tynnu o setiau data llawn gan y teclyn AI)
- Lleihau dyblygu ymdrech (e.e. cofnodi cwympiadau wrth bwyso botwm, yn seiliedig ar y data yn y system, yn hytrach nag mewn taenlen neu ffeil ar wahân)
- Goruchwylio ac olrhain canolog (rheolwyr yn gallu cael 'cipolwg')
- Gwell cyfathrebu (rhwng aelodau'r tîm, gyda'r GIG, a chyda theuluoedd)
- Rhyngwyneb o ansawdd uwch gyda phreswylwyr a'u teuluoedd (e.e. dim angen gadael preswlydd i ysgrifennu cofnod neu gael manylion wrth law mewn galwad ffôn teulu)
- Rhedeg y cartref yn llyfnach/mwy effeithlon (e.e. cofnodion cynnal a chadw a chyfathrebu yn y gegin, neu rotâu ar yr un system â phopeth arall)

Defnyddio ymarferoldeb AI ar gyfer gwell effeithlonrwydd

Un o swyddogaethau PredicAire y mae defnyddwyr yn ymddangos yn fwyaf cyffrous i'w ddefnyddio yw'r swyddogaeth sy'n defnyddio AI i lunio cynllun gofal drafft gan ddefnyddio'r data yn y system ar gyfer pob preswlydd. Mae'r swyddogaeth hon yn unigryw i PredicAire. Yn ystod yr arddangosiadau, pwysleisiodd tîm PredicAire a'r Tîm Prosiect bwysigrwydd "gwirio a diwygio" y cynllun gofal gan reolwr priodol a'i gymeradwyo, cyn ei gwblhau.

Yn dilyn y sesiynau arddangos, dywedodd aelodau'r tîm wrthym eu bod yn meddwl y byddai hyn yn arbed llawer o amser iddynt ac y byddai'n helpu'r aelodau hynny o'r tîm sy'n ei chael hi'n anodd ysgrifennu darnau helaeth o destun.

Roedd rheolwyr ac arweinwyr tîm yn awyddus i weld y swyddogaeth hon ar waith ar ôl iddynt ddechrau defnyddio PredicAire yn eu cartrefi.

Rhagweld newid: pryderon a gofidiau

Er bod pobl yn hynod gadarnhaol ynghylch cyflwyno PredicAire, roedd ganddynt rai pryderon hefyd.

Roedd y dasg gychwynnol o lanlwytho data preswylwyr i'r system yn ddarn mawr o waith a oedd yn peri braw i bobl, a dywedodd llawer o bobl wrthym eu bod yn poeni am ei gyflawni ochr yn ochr â'u gwaith o ddydd i ddydd.

Roedd gan reolwyr bryderon hefyd am sgiliau digidol aelodau eu tîm, a pha mor hyderus y gallent fod ynghylch defnyddio'r ap a'r dyfeisiau:

'Ni all pawb deipio'n gyflym; efallai y bydd yn cymryd ychydig yn hirach...ac yn amlwg mae'n rhaid i staff ddod i arfer ag ef.'

Dywedodd rhywun arall wrthym:

'Bydd llawer iawn o hyfforddiant ynddo...Bydd rhai pobl yn ei ddeall yn syth... mae gen i staff sydd hefyd o'r sector preifat sydd bob amser wedi defnyddio [offer digidol] felly maen nhw'n mynd i ddweud, 'wel, rydyn ni wastad wedi gwneud hyn', [ond] mae gen i staff sy'n mynd i gael trafferth gyda'r teclyn...felly rwy'n meddwl mai'r peth mwyaf i mi fyddai'r newid i ddefnyddio'r teclyn... [a] gallu staff i ddefnyddio'r dyfeisiau.'

Yn y sesiynau arddangos a gynhaliwyd gan PredicAire a Thîm Prosiect ADSS Cymru, gofynnodd llawer o fynychwyr gwestiynau ymarferol iawn. Mae detholiad o'r rhain wedi'u cynnwys fel Cwestiynau Cyffredin (CC) yn [Atodiad 2](#).

Er enghraifft, roedd pobl yn poeni am ddibynadwyedd y caledwedd a'r meddalwedd, a'u cysylltedd Wi-Fi:

'A yw'n ddibynadwy hefyd? Beth sy'n digwydd os bydd un o'r [dyfeisiau] yn torri i lawr? Ble rydyn ni'n mynd oddi yno? Beth os oes problemau?... A fydd pethau'n cael eu methu oherwydd nad ydych wedi cael amser i fewnbynnu'r holl wybodaeth?'

Roedd un o'r prif bryderon ymarferol yn ymwneud â'r caledwedd y byddai eu timau'n defnyddio'r ap arno. Gan fod timau'n gwneud gwaith ymarferol bob dydd, mae angen i'r dyfeisiau fod yn ddigon bach i fod yn gludadwy ac yn ffitio mewn poced, ond gyda sgrin ddigon mawr i fod yn hygyrch i bobl.

'Mae llawer [o'n tîm] yn dweud y byddai'n well ganddyn nhw hynny ar lechen yn hytrach na ffôn...Ar ffôn gall fod yn eithaf bach, ac mae bysellfwrdd y ffôn yn cymryd rhan o'r sgrin. Os ydych chi'n teipio nodiadau dyddiol, mae hynny'n mynd i fod yn anodd.'

Roedd ansawdd y teclyn hefyd yn bryder i bobl:

'Rydym hefyd eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn cael teclyn o ansawdd da iawn. Mae angen iddo allu rhedeg yr ap - mae'n mynd i gael ei ddefnyddio'n gyson, ddydd a nos. Mae'n mynd i achosi materion perfformiad os nad yw'n ddigon da.'

Er eu bod yn y lleiafrif, roedd gan rai arweinwyr tîm a rheolwyr amheuon ynghylch defnyddio teclyn digidol sy'n ysgogi mewnbwn yn erbyn rhestr wirio:

'Flynyddoedd lawer yn ôl, fe wnaethon ni ddianc rhag y syniad o restru 'tasgau' ond mae'n teimlo fel ticio bocsys eto nawr gyda'r system hon. Mae fel ein bod ni wedi dychwelyd at hynny. Mae llawer o'n pobl gefnogol drwy gydol y dydd yn 'lifo' - mae pobl yn gwneud hynny. Efallai y byddwch chi'n gwneud 5 neu 6 tasg o fewn ychydig funudau, ond rydych

chi'n adnabod y person ac mae'n fwy personol. A fydd staff yn dweud 'gadewch i mi nôl fy llechen a gwirio'r holl dasgau hynny?'

Roedd rhai rheolwyr yn poeni y byddai'r ap yn tynnu sylw aelodau eu tîm, a byddai'n eu tynnu oddi wrth dreulio amser gyda phreswylwyr:

'Os oes llawer o bethau anarferol neu annisgwyl ac nad ydym yma i helpu, nid wyf am i bobl boeni amdano. A dydw i ddim eisiau i bobl dreulio mwy o amser yn gweithio ar yr ap na threulio amser gyda phobl.'

Roedd pryder arall yn ymwneud â'r caledwedd ei hun, nid yn unig pa mor hir y byddai'n para cyn torri ond hefyd y mater o staff yn mynd â nhw oddi ar y safle yn ddamweiniol:

'Mae gennym ni system alwadau yma lle mae staff yn cario peiriant galw, ond maen nhw'n mynd ar goll a thorri! Felly pa mor hir cyn i hyn ddigwydd gyda'r ffonau ar gyfer PredicAire? Dyna beth arall - mae pobl yn mynd â pheiriannau galw adref gyda nhw oherwydd eu bod yn eu pocedi. Dyna reswm arall rydyn ni eisiau'r llechen – fyddwn ni ddim yn gallu ei ffitio yn ein pocedi a mynd â hi o'r adeilad.'

Nid oedd rhai rheolwyr yn hoffi'r ffaith bod y system yn defnyddio terminoleg na fyddent fel arfer yn ei defnyddio yn eu cartref:

'Doeddwn i ddim yn hoffi rhywfaint o'r derminoleg – 'pad changes' ac 'onboarding' – nid yw'n derminoleg rydyn ni'n ei defnyddio. Gelwir rhywun sy'n mynd i'r toiled yn 'elimination'. Yr hyn y byddwch chi'n ei ddarganfod felly yw bod staff, heb unrhyw fai arnyn nhw, oherwydd eu bod yn ei ddarllen trwy'r dydd bob dydd, y daw'r derminoleg honno yn norm.'

Mynd i'r afael â phryderon drwy ymgysylltu

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl y siaradom â nhw yn agored i newid ond roedd ganddynt rai pryderon oherwydd, i ddechrau, nid oeddent yn gwybod beth i'w ddisgwyl. Ni allent ragweld sut y gallai system edrych, na sut y gallai weithio yn eu cartref. Dywedodd pobl, pan oeddent wedi gweld yr arddangosiad gan PredicAire, eu bod yn teimlo'n dawl eu meddwl:

'Unwaith y bydd ar waith rwy'n meddwl y bydd yn eithaf da. Rwy'n gweld ei fanteision. Mae'n mynd i fod yn declyn da i'w gael. Ond roedden ni'n eithaf amheus nes i ni ei weld ddoe. Diflannodd llawer o'r amheuaeth honno - roedd mwy o bethau cadarnhaol nag yr oeddwn yn meddwl y byddai. Mae'r holl staff yn yr arddangosiadau, y rhan fwyaf ohonynt yn eithaf cadarnhaol.'

Drwy gydol mis Rhagfyr 2024 i fis Chwefror 2025, hwylusodd Tîm Prosiect PredicAire Gwent 9 arddangosiad o'r system PredicAire, lle bu aelod o dîm PredicAire yn llywio'r cyfranogwyr drwy'r system ac roedd croeso wedyn i bobl ofyn cwestiynau. Mae dyddiadau a niferoedd presenoldeb y sesiynau arddangosiad wedi'u nodi yn Nhabl 2.

Tabl 2: Dyddiadau a niferoedd presenoldeb – sesiynau arddangos Prosiect Peilot PredicAire Gwent

Dyddiad	Nifer y Mynychwyr	Rolau
03/12/2024	3	Timau cartrefi gofal
06/12/2024	11	Timau cartrefi gofal
10/12/2024	13	Timau llywodraethu data, TG a diogelwch, a thimau cartrefi gofal
10/01/2025	3	Timau cartrefi gofal
15/01/2025	1	Timau cartrefi gofal
17/01/2025	3	Timau cartrefi gofal
24/01/2025	8	Timau llywodraethu data, TG a diogelwch
13/02/2025	15	Timau cartrefi gofal
20/02/2025	16	Timau cartrefi gofal

4. Dysgu o gartrefi gofal preswyl eraill

Nododd y Tîm Prosiect gyfle i gysylltu â chlwtwr o dri thîm cartref gofal preswyl arall yng Nghymru, a roddodd declyn digidol gwahanol ar waith yn ddiweddar. Mae'r ddwy system yn gynhyrchion sydd ar gael yn fasnachol ac sy'n gweithredu'n debyg mewn sawl ffordd, ond nid pob peth. Nid oes gan y system a ddefnyddir gan y clwtwr arall ymarferoldeb AI. Fodd bynnag, roedd digon ar draws y broses rheoli newid o 'bapur i ddigidol' i wneud hyn yn rhan ychwanegol ddefnyddiol o'n hadroddiadau.

Adborth cadarnhaol o symud i declyn digidol

Dywedodd y tri chartref a oedd wedi mabwysiadu cynnyrch digidol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf na fyddent yn newid eu penderfyniad. Maent wedi dod o hyd i lawer o fanteision gwahanol o ddefnyddio eu teclyn digidol, gan gynnwys:

Mwy o benodoldeb wrth gofnodi:

'Mae llawer mwy o fanylion nawr – bydd yn rhannu gofal personol yn 'cynigiwyd/rhodddwyd/cydsyniwyd/pam ac ati...' lle o'r blaen byddem wedi tybio llawer o hynny, a heb ei roi mewn ysgrifenedig erioed. Ac os nad yw wedi'i ysgrifennu, ni ddigwyddodd hynny! Mae'n ei bersonoli i raddau manwl iawn.'

Cyflwyno darlun mwy cywir a chyfannol o ryngweithiadau preswlydd gyda'r tîm:

'Mae'n caniatáu i ddefnyddwyr lluosog fewnbynnu rhyngweithiadau ar gyfer y preswlydd hwnnw trwy gydol y dydd, tra o'r blaen roedd un person yn arfer codi'r ffeil ac ysgrifennu am fore'r person hwnnw (dim ond o'i safbwynt ei hun). Byddai'r person wedi cael llawer o ryngweithio â'r staff. Dywedwch fod pump o bobl wedi cefnogi'r person hwnnw trwy gydol y dydd, [bellach] mae gennym ni fewnbyn pump o bobl ar gyfer y person hwnnw a byddan nhw'n fwy personol oherwydd maen nhw wedi gwneud y pethau hynny gyda'r person hwnnw mewn gwirionedd.'

Mae'r rhyngwyneb yn hawdd i'w ddefnyddio:

'Mae'n hawdd iawn i'w ddefnyddio o safbwynt gofalwr... Maen nhw'n mynd ar y ffôn, yn tapio'r hyn maen nhw ei eisiau, mae yna focsys cwympenni a rhywfaint o destun rhydd ar y gwaelod.'

Mae recordio yn digwydd ar unwaith a gellir cyrchu data o bell ac yn hawdd:

'Mae'n amser real a gellir ei gyrchu yn unrhyw le. Bobol bach, does dim rhaid i mi fynd i mewn i'r cartref hwnnw a thynnu'r ffeil a phori drwyddi – gallaf neidio ar y system a gweld.'

Mae'n haws adrodd:

'Mae'n dda iawn i redeg adroddiadau. Yn hytrach na chwilio drwy'r nodiadau dyddiol. ...Gallwch dynnu pethau'n hawdd oddi yno.... Mae popeth yn cael ei storio mewn un lle - mae'n hawdd ei dynnu...Rwy'n meddwl y bydd yn hawdd ei archwilio.'

Gall defnyddwyr lluosog gyrchu cofnodion ar yr un pryd:

'Mae'r staff yn gallu gweld pethau'n syth – weithiau efallai y bydd gan weithiwr proffesiynol arall y ffeil ac ni allwch ei chyrraedd, ond fel hyn gallwch edrych yn syth ar wybodaeth y preswlydd hwnnw.'

Mae mynediad a chyfeirio at wybodaeth yn haws i weithwyr gofal:

'Mae'n haws i'r staff weld hefyd – gallant fficio drwy'r hyn y mae staff eraill wedi'i wneud.'

Mae'r system yn atgoffa gweithwyr gofal i gyflawni tasgau allweddol:

'Gallwch rybuddio staff hefyd – nid ydym wedi gwneud hyn eto ond rwy'n meddwl y bydd yn dda iawn – fel y gallwch osod rhybuddion ar bethau fel, er enghraifft, bod gan rywun apwyntiad neu angen meddyginiaeth... Ar hyn o bryd maent yn gosod eu larymau ffôn i'w hatgoffa ond gallent osod y system i'w hatgoffa i wneud hynny. Mae gennym ni gwpl o breswylwyr ar feddyginiaeth wedi'i hamseru fesul awr felly bydd hynny'n wych!'

Pwysigrwydd ymgysylltu, hyfforddiant a chymorth

Er ei bod yn bwysig cydnabod maint y newid sydd ynghlwm wrth symud o systemau papur i systemau digidol, dywedodd llawer o bobl wrthym fod eu timau wedi addasu'n gyflymach ac yn haws nag yr oeddent wedi'i ragweld. Dywedodd un rheolwr cartref gofal wrthym:

'Roeddwn yn nerfus iawn ynghylch cyflwyno hyn yn fy nghartref gofal. Cefais un aelod o staff yn crio, gan ddweud ei bod yn mynd i ymddiswyddo. Does ganddi hi ddim ffôn clyfar...dyna sut roedden nhw'n teimlo a dydw i ddim yn hoffi bod unrhyw un yn teimlo felly.... A dweud y gwir, mae hi'n un o'r bobl orau sydd yno nawr. Fyddech chi ddim yn credu'r newid - mae hi hyd yn oed yn gwneud emojis bach ac yn dweud wrth y staff sut i'w wneud... doedd hi ddim yn gallu credu pa mor syml oedd hi i'w defnyddio.'

Roedd hyder pobl yn aml yn cael ei hybu pan allent 'gael eu dwylo' ar y dechnoleg, i'w gwneud yn llai o ddirgelwch a'u helpu i weld drostynt eu hunain sut y gallai weithio'n ymarferol:

'Cyn gynted ag y gwnaethom roi setiau llaw i staff, fe ddechreuon nhw eu defnyddio'n gyflym iawn, gan ddod i arfer â nhw, eu hoffi nhw...'

Er bod hyfforddiant ffurfiol yn hanfodol, clywsom gan y mabwysiadwyr cynharach hyn fod dysgu anffurfiol ymhlith cydweithwyr yr un mor bwysig iddynt hwy, yn enwedig o ran rhoi'r hyder i bobl ddefnyddio'r system unwaith y byddai'n weithredol:

'Sefydlaais ychydig o sesiynau hyfforddi ar gyfer fy nhîm i'w helpu gyda'r pethau sylfaenol ar ôl i mi ei ddeall fy hun, fel y gallwn eu cefnogi mewn rhyw fath o hyfforddiant hyfforddi'r hyfforddwr. Pethau sylfaenol fel mewngofnodi, mynd i mewn i breswylfa a chofnodi bod rhywun wedi cael cawod. Yn llythrennol fe wnes i bethau mor syml, i beidio â dychryn pobl, fel arall rydych chi'n cael eich llethu ac ni fyddwch chi'n ei wneud. Gyda rhai aelodau o staff fe wnes i hyn un i un, yn hytrach nag mewn grŵp, yn enwedig ar gyfer pobl a oedd yn wirioneddol nerfus am ei ddefnyddio.'

Roedd pobl yn naturiol yn troi at gydweithwyr am gymorth. Dywedodd rheolwyr wrthym fod rhai pobl yn y cartref wedi dod yn bersonau 'mynd atynt' am gymorth:

